South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Bwletin 3 Mai 2008

Gweithio Consortiwm - Cynnydd wrth roi'r Cynllun Strategol Interim ar waith

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
Lansiwyd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion mewn mwy o fanylder ym mis Mawrth gan LlCC mewn cyfres o bedair cynhadledd ranbarthol yn seiliedig ar yr ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) Consortia Cymru. Cynhaliwyd y lansiad ar gyfer rhanbarth y de-orllewin a'r canolbarth ar Faes y Sioe, Llanelwedd ar 6 Mawrth. Gwahoddwyd yr holl benaethiaid yno, ac roedd cynrychiolwyr o bob cyfnod wedi cymryd rhan, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol yr Awdurdodau Lleol ar gyfer gwella ysgolion.

Cyflwynwyd a chadeiriwyd y cwrs gan Richard Parry, Cyfarwyddwr Addysg Abertawe. Roedd siaradwyr ar gyfer y sesiynau bore yn cynnwys Yr Athro David Egan, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd; Steve Marshall, Cyfarwyddwr APADGOS (DCELLS), a Jane Hutt AC, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Cafwyd cyflwyniad poblogaidd ar rôl awdurdodau lleol mewn effeithiolrwydd ysgolion gan Gareth Jones, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigion. Yn anffodus, o ganlyniad i rai anawsterau technegol ac anawsterau eraill yn y broses gyfieithu, collodd rhai pobl ran o'r cyflwyniad ac felly, mae'r cyflwyniad a'r nodiadau ar gael ar wefan swamwac www.swamwac.org . Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan bobl ifanc Ysgol Gyfun Glan Afan, Port Talbot a oedd wedi sicrhau ffocws ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc, a darparwyd gwybodaeth gefndir ddefnyddiol gan Mike Griffiths ac Andy Henderson, penaethiaid a ryddhawyd ar secondiad i weithio gyda LlCC ar y FfEY (SEF),

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau grŵp yn y prynhawn a oedd yn canolbwyntio ar faterion allweddol mewn mwy o fanylder, ac yn y cyfarfod llawn olaf, ymunodd Elizabeth Taylor, APADGOS gyda siaradwyr y bore.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn gosod cynigion ar gyfer dau fath o weithredu peilot. Bydd dau ranbarth yn cynnal peilot o'r ymagwedd Pennaeth Cyswllt fel yr amlinellwyd yn nogfen y FfEY. Bydd y ddau ranbarth arall sydd ar ôl. gan gynnwys swamwac, yn datblygu cynigion gweithredu peilot ar wahân, i'w hystyried gan LlCC.

Er mwyn datblygu'r cynnig peilot, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Mawrth 2008. Mae'r grŵp yn cynnwys penaethiaid a gweithwyr proffesiynol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella ysgolion. Bydd manylion cyswllt ar gael cyn bo hir ar wefan swamwac a bydd aelodau'r grŵp yn croesawu eich barn neu gallwch fynegi barn drwy anfon e-bost at admin@swamwac.org. Marciwch eich e-bost yn glir at sylw'r Grŵp FfEY.

Grŵp Pontio
Mae'r Grŵp Pontio yn gweithio ar ddatblygiad astudiaeth achos ac mae aelodau ar hyn o bryd yn ymweld ag ysgolion ar draws y consortiwm gan geisio coladu'r wybodaeth ar gyfer llyfryn arfaethedig a gwybodaeth ar y we.. Maent yn gobeithio cwblhau hyn erbyn dechrau mis Mai. Mae'r grŵp wedi derbyn copi o'r protocol drafft ar gyfer rhoi gwaith a ddatblygir ar y cyd, astudiaethau achos a gwybodaeth ynghylch arfer da arall ar wefan swamwac a bydd yn gweithredu fel 'peilot' ar gyfer y protocol hwn.

Dylai grwpiau eraill sy'n datblygu ac/neu a fyddai'n dymuno gweld ôl astudiaethau achos a gwybodaeth ar arfer da ar wefan swamwac, neu ddarparu dolenni i wybodaeth ddefnyddiol arall, e-bostio admin@swamwac.org a dylent ystyried y protocol ar www.swamwac.org.

Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc
Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sydd ar hyn o bryd yn ceisio ymatebion i'r ymgynghori ar eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yw:

Abertawe
www.cypswansea.co.uk **Mae angen ymateb erbyn:** 31/05/08
Castell-nedd Port Talbot
www.npt.gov.uk/childrenandyoungpeople **Mae angen ymateb erbyn:** 30/06/08
Sir Benfro
http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=154,988&parent_directory_id=101&id=14677&Language= **Mae angen ymateb erbyn:** 09/06/08

Mae Asesu Anghenion **Ceredigion** ar gael yn www.ceredigion2020.org.uk, a bydd eu cynllun yn dilyn maes o law.

Powys a Sir Gaerfyrddin Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi cwblhau eu hymgynghoriadau, ac maent yn y broses o ddiweddaru eu cynlluniau drafft yn sgil yr ymatebion a dderbyniwyd.

Cynlluniau Peilot Athrawon Siartredig

- Cychwynnodd y modiwl craidd peilot ar Hunanwerthuso, Myfyrio a Datblygiad Personol ym mis Chwefror 2008, gyda'r olaf o'r sesiynau dysgu wedi'i chwblhau'n ddiweddar.
- Bydd cyfranogwyr bellach yn gweithio tuag at gwblhau eu Portffolio Arwain a Dysgu, y bydd eu cynnwys yn ffurfio canolbwynt trafodaeth strwythuredig gyda thiwtoriaid cwrs, yn seiliedig ar yr ysgol.
- Bydd achrediad y modiwl yn cael ei gwblhau drwy Goleg y Drindod, Caerfyrddin.
- Mae cynnig y Consortium i gyflawni peilot o ail fodiwl – Arwain y Dysgu – wedi'i dderbyn a bydd y modiwl dwyieithog hwn yn cael ei gynnal rhwng Hydref 2008 a Chwefror 2009. Anogir athrawon cymwys o awdurdodau swamwac i ymgeisio, a dylai unrhyw un â diddordeb gysylltu â Maria Boex yn CDCC (GTCW), e-bost maria.boex@gtcw.org
- Gellir cael manylion pellach am raglen yr Athrawon Siartredig ar wefan y CDCC yn http://www.gtcw.org.uk/welcome.html
- Bwriedir integreiddio'r Modiwl Craidd Hunanwerthuso, Myfyrio a Datblygiad Personol i raglen arweinydd canol swamwac sy'n cael ei dylunio a'i datblygu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Arweinydd Canol

Cynhadledd 14-19

Ar ddydd Mercher, 6 Chwefror 2008, trefnwyd a chynhaliwyd Cynhadledd Rwydwaith lwyddiannus gan gyd-lynwyr 14-19 swamwac, a nod y gynhadledd oedd rhannu arfer da ledled Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod. Roedd cynrychiolwyr o bron pob Rhwydwaith 14-19 yn bresennol, ynghyd â swyddogion LlCC. Ariannwyd y digwyddiad gan LlCC. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda cheisiadau i gynnal digwyddiad arall y flwyddyn nesaf. Y nod oedd i :

- Rannu arfer gan Rwydweithiau ledled Cymru.
- Datblygu ymagwedd fwy cydweithredol at weithio gyda'i gilydd o fewn ac ar draws rhanbarthau.
- Datblygu ymagwedd fwy strategol at gynllunio yn y dyfodol.

Cynigiwyd amrywiaeth o weithdai lle'r oedd llawer yn bresennol, gan gynnwys:

- **Datblygu Canolfan Rhagoriaeth E-ddysgu ar gyfer cydweithredu**
  Cyfranwyr: Rhwydwaith Gwynedd ac Ynys Môn.
- **Arolygiad Ardal 14-19 – persbectif enwebai**
  Cyfrannwr: Rhwydwaith Wrecsam
- **Profiad Gwaith V Profiad sy'n canolbwyntio ar waith**
  Cyfranwyr: Rhwydwaith Bro Morgannwg a Gyrfa Cymru'r Gorllewin.
- **Monitro eich Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (ANDP)– ymagwedd ymarferol**
  Cyfranwyr: Rhwydwaith Powys.

Newyddion…Newyddion…Newyddion…

Ariannu Parhad

Mae cynnydd yn digwydd ar ein cais i gronfa Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru am barhad yn yr ariannu i ddatblygu gweithio consortiwm ymhellach. Bu cyfarfod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud manylion y cais yn glir ym mis Chwefror, 2008 a gobeithiwn ddod i wybod y canlyniad yn fuan.

Arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer rhanbarth gorllewin Cymru a datblygiad Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol arfaethedig ar gyfer de-orllewin Cymru

Roedd bwletin 2 yn cynnwys y cefndir i'r cynnig i ddatblygu Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru gyda gorchwyl i 'sicrhau bod darparwyr dysgu a ariennir yn gyhoeddus a sefydliadau cysylltiedig yn gweithio'n gydweithredol ac yn effeithlon i fodloni anghenion galw dysgwyr a'r economi ranbarthol yn Ne orllewin Cymru'. Yn dilyn trafodaethau, roedd Cyfarwyddwyr a Grwpiau Strategol wedi cefnogi datblygiad pellach y cynigion, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf, er nid yn unig ar hyn, ar Oedolion yn Parhau i Ddysgu.

Cynhaliwyd Gweithdy ar gyfer yr holl bartneriaid arfaethedig ar 20 Chwefror, 2008 fel parhad o'r sesiwn gyntaf ym mis Medi 2007 ac i roi'r diweddaraf i'r holl bartneriaid am gynnydd cysyniad y PDRh. Roedd llawer yn bresennol yn y gweithdy (oddeutu 50 o gynrychiolwyr) o Lywodraeth Leol, AB, AU, dysgu seiliedig ar waith, a'r sector gwirfoddol. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar yr hyn y mae sectorau'n gobeithio'i gael gan y PDRh a'r hyn y gallent gyfrannu, yn ogystal â heriau a ffyrdd o fodloni'r heriau. Daeth y gweithdy i ben gyda chefnogaeth gyffredinol y cyfeiriad cyfredol, a pharodrwydd i barhau i gefnogi'r datblygiad. Mae cefnogaeth gychwynnol gan LlCC wedi'i derbyn.

Ceir Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect ar wefan y WEFO a'r cam nesaf yw datblygu Datganiadau o Ddiddordeb. Gellir cael gwybodaeth bellach ar ddatblygiad y ceisiadau am arian, a Ffurflenni Cychwyn Prosiect ar gyfer pob prosiect (o dan dderbyniadau datblygu) ar wefan y WEFO yn <http://www.wefo.wales.gov.uk>

Y Diweddaraf am y Gwefannau
Mae adolygiad o'r wefan eisoes wedi cychwyn, gan ganiatáu cyfle i bostio arfer a rennir a dogfennau i ateb ceisiadau gan grwpiau. Mae'r protocol drafft ar gyfer rhoi gwaith a ddatblygwyd ar y cyd, astudiaethau achos a gwybodaeth ar arfer da arall wedi'i ddatblygu ar wefan swamwac, ac mae ar gael ar wefan swamwac neu drwy e-bost gan admin@swamwac.org.

Rydym yn bwriadu gwneud y wefan hon yn adnodd defnyddiol, ac os oes gennych unrhyw ddolenni neu erthyglau a fyddai, yn eich tyb chi, yn ddefnyddiol i eraill, yna rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at admin@swamwac.org

CALLU
Ar 18 Chwefror 2008 cyflwynwyd tystysgrifau i ymgeiswyr llwyddiannus carfan 2007. Llongyfarchiadau i'r cydweithwyr hynny ar eu llwyddiant.

Ceisir ceisiadau ar gyfer y rownd nesaf ym mis Medi 2008. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â swyddog arweiniol eu hawdurdod lleol. Gellir cael hyd i enwau swyddogion arweiniol o dan ardal waith CALLU ar wefan swamwac yn www.swamwac.org/cpd/hlta.asp

Ceir manylion am wybodaeth gais y llynedd hefyd ar eu gwefan, a disgwylir y bydd y broses eleni yn debyg. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb nodi y bydd angen iddynt ddangos bod ganddynt gymhwyster mewn Llenyddiaeth Gymraeg neu Saesneg a lefel 2 mathemateg/rhifedd y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF), sydd gywerth â TGAU A - C neu uwch, a rhaid bod ganddynt dystiolaeth o'u cymwysterau.

Adolygiadau staffio ysgol pellach
Erbyn 31 Mawrth 2006 roedd yn orfodol i bob ysgol yn ôl y gyfraith gynnal adolygiad strwythur staffio ysgol a chytuno'n ffurfiol ar strwythur a chynllun staffio i'w rhoi ar waith. Fel y gŵyr pob ysgol mae'n rhaid i'r strwythur staffio y cytunwyd arno fod yn ei le yn gyflawn erbyn 1 Ionawr 2009.
Mae peth amser wedi bod ers i'r adolygiadau gael eu cynnal, ac mae llawer o ysgolion wedi datblygu neu newid yn sylweddol ers iddynt gytuno ar eu strwythurau staffio, ac o ganlyniad i hyn, nid yw'r strwythurau bellach yn addas nac/neu'n gynaliadwy.

Mae Grŵp AD/Ailfodelu'r Gweithlu swamwac wedi datblygu canllaw wedi'i ddiweddaru a llythyrau enghreifftiol i fynd gyda hwn i gefnogi ysgolion sydd am gynnal adolygiad strwythur staffio pellach, a gellir cael hyd i'r rhain ar wefan y consortiwm www.swamwac.org

Dylai ysgolion gysylltu â'u Swyddog AD/Ailfodelu'r Gweithlu am gyngor mwy manwl a chefnogaeth wrth gynnal adolygiad staffio neu wrth roi'r strwythurau y cytunwyd arnynt ar waith.

RHAGORI
Ymddeolodd Val Scurlock a fu'n cydlynu cefnogaeth RHAGORI swamwac dros y flwyddyn ddiwethaf ddiwedd mis Mawrth 2008. Rydym yn dymuno'n dda iddi ac yn diolch iddi am ei gwaith.

Mae David Brunton wedi derbyn y dyletswyddau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Val, gyda chymorth Sue Davies, pennaeth cynradd sydd wedi'i rhyddhau o Ysgol Tirdeunaw ar secondiad. Mae cynllun gweithredu y cytunwyd arno eisoes yn ei le, ac mae ymweliadau dysgu, cefnogaeth i ymgynghoriaeth cyfoedion a gweithdai hanner diwrnod a gynhelir gan yr AALL wedi'u cynllunio ar gyfer pob ysgol RHAGORI. Bydd angen Cynlluniau Gweithredu Ysgol newydd ar gyfer blwyddyn 3, a darperir canllawiau i gefnogi ysgolion.

Cynrychiolydd swamwac ar grŵp llywio RHAGORI yw Graham Longster, Sir Benfro.

Amserlen Ddigwyddiadau Gweithio Consortiwm

Mae'r adran hon yn cynnwys digwyddiadau all fod o ddiddordeb. Rydym yn bwriadu diweddaru'r amserlen ddigwyddiadau'n rheolaidd, felly, os ydych yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau yr hoffech iddynt fod ar gael i gydweithwyr ledled awdurdodau swamwac, rhowch wybod i ni, a byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ym mwletinau'r dyfodol ac/neu ar y wefan.

Fel y gwelwch, ceir nifer o ddigwyddiadau pwysig yn ystod y misoedd nesaf ac felly, er mwyn mwyafu'r buddion i bawb, byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw un sy'n ystyried trefnu digwyddiad gwaith consortiwm gysylltu â admin@swamwac.org er mwyn sicrhau nad yw dyddiadau allweddol yn gwrthdaro.

Digwyddiadau gweithio consortium– 2008

Teitl	Dyddiad /Amser	Lleoliad	Cynulleidfa	Cyfeiriad Cyswllt
Rhaglen beilot Dal i fyny Rhifedd	23 Medi	Y Llwyfan, Caerfyrddin a Gerddi Botaneg Cenedlaethol Llanarthne	Ysgolion a enwebir gan yr Awdurdod Lleol	admin@swamwac.org
Athrawon yn dysgu – Newid rolau er mwyn gwella perfformiad disgyblion	16 Mehefin 2008 9.00 i 3.30	Gwesty Blancos PortTalbot	Cwrs byr yw hwn a drefnir gan Gastell-nedd Port Talbot ac mae'n agored i athrawon CA 2/3 yn ysgolion swamwac	c.f.jones@neath-porttalbot.gov.uk
Cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i ysgolion a rhannu adnoddau	Tymor yr Haf 2008 – dyddiad i'w drefnu			
Hyfforddi ASPECT ar Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwella Addysg	Tymor yr Haf 2008 – dyddiad i'w drefnu			
Asesu ar gyfer statws CALU	23 Ebrill –23 Mai 2008		Ymgeiswyr a ddewisir	admin@swamwac.org
Ailgylchu: Defnyddio sbwriel yn greadigol i greu gwaith celf cyffrous CA2-5	7 Tachwedd 2008	Neuadd y Frenhines Arberth	Athrawon CA2-5	

Digwyddiadau eraill a gefnogir gan weithio consortiwm

Teitl	Lleoliad	Venue	Cynulleidfa	Cyfeiriad Cyswllt
Cynhadledd Addysgeg Genedlaethol LICC	13,14,15 Mai 2008	Gwesty Holland House Caerdydd	Ysgolion o'r holl gyfnodau a enwebwyd gan yr Awdurdodau Lleol	admin@swamwac.org

Rhifau/Cyfeiriadau cyswllt

Swyddfa'r Consortium a Hwyluswyr
Gallwch gysylltu â swamwac ar 01267 245633 neu e-bostio admin@swamwac.org

Cadw mewn Cysylltiad

Byddwn yn anfon bwletinau'n rheolaidd i'ch cadw mewn cysylltiad â chynnydd a llwyddiannau yng ngwaith y consortiwm ac mae'r holl fwletinau hefyd ar gael ar wefan swamwac.

Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn medru anfon y bwletinau ymlaen at unrhyw un a fyddai â diddordeb ynddynt, a'u gosod ar hysbysfyrddau staff yn eich ysgol neu'ch ardal waith.

Croesawn unrhyw sylwadau gennych ynghylch sut y mae gweithio consortiwm wedi'ch helpu chi, neu awgrymiadau am sut y gallai eich helpu yn y dyfodol. Os oes gennych unrhyw ddigwyddiadau yr hoffech iddynt fod ar gael i gydweithwyr ledled awdurdodau Swamwac, neu os oes gennych unrhyw arfer da yr hoffech ei rannu drwy'r wefan, yna anfonwch e-bost at admin@swamwac.org